# Y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru)

## Cofnodion (LS(3)-05-08)

**Dyddiad y cyfarfod: 9 Hydref 2008**
**Amser y cyfarfod: 12.30pm - 1:53pm**
**Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru (Cadeirydd Dros Dro)
Andrew RT Davies, Canol De Cymru
Janet Ryder, Gogledd Cymru

### Y Swyddfa Ddeddfwriaeth

Siân Wilkins, Clerc
Claire Griffiths, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Gwyn Griffiths, Cynghorydd Cyfreithiol
Anne Thomas, Uwch-swyddog Ymchwil

### Tystion

Alun Charles, Swyddog Datblygu, Uned y Blynyddoedd Cynnar ac Ysgolion, Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Jeni Smallwood, Swyddog Datblygu, Uned Pobl Ifanc a Sgiliau, Bwrdd yr Iaith Gymraeg
David Rosser, Cyfarwyddwr, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yng Nghymru

### Eitem 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Yn absenoldeb Jeff Cuthbert, etholwyd Alun Davies yn Gadeirydd Dros Dro o dan Reol Sefydlog 10.19

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Jeff Cuthbert. Dirprwyodd Alun Davies ar ei ran. Cafwyd ymddiheuriadau hefyd gan Christine Chapman a Kirsty Williams.

### Eitem 2: Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008 - Cyfnod 1, sesiwn dystiolaeth 4

2.1 Clywodd y pwyllgor dystiolaeth lafar gan Alun Charles a Jeni Smallwood o Fwrdd yr Iaith Gymraeg a David Rosser o Gydffederasiwn Diwydiant Prydain yng Nghymru.

2.2 Gwahoddodd y pwyllgor y tystion, os byddant yn dymuno, i anfon unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig bellach ar unrhyw rai o'r materion a godwyd yn ystod y sesiwn dystiolaeth.

#### Camau Gweithredu

Cytunodd David Rosser i anfon nodyn i Gadeirydd y pwyllgor ynghylch materion trawsffiniol.